Department of Energy and Climate Change

TUAG AT DDATGANIAD POLISI CENEDLAETHOL AR BŴER NIWCLEAR

Ymateb y Llywodraeth i ymgynghoriadau ynghylch y Broses Asesiad Lleoli Strategol a'r meini prawf lleoli ar gyfer gorsafoedd pŵer niwclear newydd yn y DU; ac i'r astudiaeth o effeithiau posib cymhwyso'r meini prawf yn amgylcheddol ac o ran cynaliadwyedd

PENNOD 1: GOLWG GYFFREDINOL

SWYDDFA DATBLYGU PŴER NIWCLEAR

IONAWR 2009

Pennod 1: Golwg gyffredinol

1.1 Cyn crynhoi'r prif themâu yn yr ymateb i'r ymgynghoriad ac ymateb yn fanwl iddynt ym Mhenodau 2 – 7 y fersiwn Saesneg, mae'r bennod hon yn rhoi golwg gyffredinol ar bolisi'r Llywodraeth sydd o fewn yr ymateb, gan ganolbwyntio ar faterion polisi allweddol a newidiadau i'r cynigion a wnaed o ganlyniad i'r ymgynghoriad. Mae'n cynnwys y meini prawf terfynol ar gyfer yr Asesiad Lleoli Strategol (meini prawf SSA) a chrynodeb o'r camau nesaf yn y broses gyda'r SSA a'r Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Bŵer Niwclear (yr NPS Niwclear).

Pwrpas yr SSA

1.2 Bydd y Llywodraeth yn cynnal yr SSA er mwyn adnabod ac asesu safleoedd sy'n strategol addas ar gyfer lleoli gorsafoedd pŵer niwclear newydd erbyn diwedd 2025.[13]

1.3 Mae'r Llywodraeth yn cydnabod pwysigrwydd penderfyniadau ynghylch lleoliad gorsafoedd pŵer niwclear newydd. Bydd yr SSA yn rhoi cyfle i'r Llywodraeth asesu addasrwydd safleoedd a enwebir ar y lefel genedlaethol. Bydd y safleoedd yn cael eu rhestru yn yr NPS Niwclear, gan roi arweiniad i'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith (IPC) sydd ar ddod

1.4 Gan y bydd yr SSA wedi asesu addasrwydd strategol y safleoedd, nid yw'r Llywodraeth yn disgwyl y bydd yn rhaid i'r IPC ailystyried yr agwedd hon ar y safleoedd. Yn hytrach, bydd yr IPC yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â chynigion penodol i adeiladu ar safle a restrir yn yr NPS Niwclear.

1.5 Cafodd yr SSA ei gynllunio er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, y bydd safleoedd gwahanol (*alternative*) y gellid eu hystyried yn ddewisiadau eraill posib yn lle'r rhai a restrir yn yr NPS Niwclear, wedi cael eu nodi a'u hasesu ar lefel strategol hefyd. Fel hyn, bwriedir lleihau'r angen am drafod safleoedd gwahanol strategol ar y cam caniatâd datblygu.

1.6 Bydd safleoedd yn cael eu henwebu i'r SSA gan drydydd partïon, sydd mewn sefyllfa dda i nodi'r safleoedd mwyaf credadwy ar gyfer datblygu gorsafoedd pŵer niwclear newydd erbyn 2025. Er mwyn sicrhau bod digon o ystyriaeth wedi'i rhoi i'r dewisiadau gwahanol hyn ar y lefel strategol, yng ngoleuni'r enwebiadau a ddaeth i law, bydd y Llywodraeth yn ystyried a oes angen camau pellach i ystyried gwahanol safleoedd ac adlewyrchir y canlyniadau

[13] Fel y nodir yn Neddf Cynllunio 2008, gall NPS nodi bod un neu fwy o leoliadau yn addas (neu â photensial i fod yn addas) neu'n anaddas ar gyfer datblygiad â disgrifiad neilltuol. Er dibenion y ddogfen hon, mae "lleoli gorsafoedd pŵer niwclear newydd" yn golygu dechrau gweithredu un neu fwy o orsafoedd pŵer niwclear newydd ar y safle. Ystyr addasrwydd strategol yw'r farn y gall y Llywodraeth ei llunio ar sail y wybodaeth sydd ar gael ar y cam SSA, yn erbyn asesiad o'r meini prawf hynny a nodwyd ganddi yn rhai strategol bwysig.

pan gyhoeddir yr NPS Niwclear. Yn arbennig, bydd y Llywodraeth yn gofyn i enwebwyr sut y gwnaethant benderfynu pa safle i'w enwebu a bydd yn cynnal ei hastudiaeth ei hun o safleoedd gwahanol, a lle bo angen gellir ystyried hyn fel rhan o'r broses SSA.

2025 a swyddogaeth niwclear yn y cymysgedd ynni

1.7 Cyfyngir yr SSA i ystyried safleoedd y gellir eu lleoli erbyn 2025. Y rheswm am hyn yw ei bod hi'n bwysig canolbwyntio ar safleoedd a all ddod i weithio yn ddigon buan er mwyn cyfrannu at ein nodau o ran newid hinsawdd a sicrwydd ynni. Bydd gofyn i enwebwyr ddangos pam mae'r safle a enwebir ganddynt yn gredadwy o ran ei ddefnyddio erbyn diwedd 2025.

1.8 O gofio pwysigrwydd cwrdd â'n targedau ar allyriadau CO_2, bydd yr NPS Niwclear yn adlewyrchu safbwynt y Llywodraeth o ran swyddogaeth pŵer niwclear yn y cymysgedd ynni yn ogystal â phwysigrwydd lleoli'n gynnar yn y cyfnod 2017-2025. Bydd y Llywodraeth yn ystyried a yw hi er budd y cyhoedd bod rhai o'r safleoedd yn yr NPS Niwclear, neu'r cyfan, yn cael eu lleoli a'u defnyddio erbyn dyddiad sy'n gynharach na 2025 ac os hynny, bydd yn rhoi cyfrif am hyn wrth asesu addasrwydd y safleoedd a ystyrir drwy'r SSA a bydd yn adlewyrchu hyn yn yr NPS Niwclear.

1.9 Felly gofynnir i enwebwyr nodi a ellid lleoli gorsaf bŵer niwclear newydd ar y safle yn gynt na 2025, yr amserlen bosib ar gyfer lleoli'n gynnar, amcangyfrif o broffil y gallu cynhyrchu cynnar y gellid ei gyflawni ar y safle a enwebir a'r rhesymau y tu ôl i'r datganiadau hyn. Mae'r Llywodraeth yn disgwyl ystyried y wybodaeth hon wrth asesu addasrwydd safleoedd posib. Fel rhan o'r asesiad hwnnw, gall y Llywodraeth hefyd roi ystyriaeth i unrhyw bolisi ar swyddogaeth pŵer niwclear o fewn y cymysgedd ynni, i ba raddau y mae angen gallu niwclear newydd os yw hynny'n berthnasol, a hefyd ei pholisi ynni ehangach.

1.10 Ar hyn o bryd rydym yn disgwyl y bydd yr NPS Niwclear yn egluro nad yw'r Llywodraeth yn disgwyl i ddatblygwyr wneud cais am ganiatâd datblygu ar gyfer safleoedd na chawsant eu hystyried yn y broses SSA a'u cynnwys o fewn yr NPS. Petai'r angen yn codi, bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi ail alwad am enwebiadau ar gyfer safleoedd credadwy y gellid eu lleoli ar ôl 2025.

Enwebu safle ar gyfer yr SSA

1.11 Gall unrhyw un enwebu safle i'r SSA. Rhaid i'r Llywodraeth gael ei bodloni bod safle yn un credadwy ar gyfer lleoli erbyn 2025 er mwyn iddo gael ei ddwyn ymlaen fel rhan o'r SSA. Nid yw safleoedd a restrir yn yr NPS Niwclear yn rhai penodol i enwebydd, felly nid yw'n dilyn mai'r person neu'r endid a enwebodd y safle fydd y sawl a fydd yn bwrw ymlaen â chynigion wedi hynny i ddatblygu gorsaf bŵer niwclear newydd ar safle a restrir yn yr NPS Niwclear.

1.12 Y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau yw **31 Mawrth 2009**. Rhoddir rhagor o arweiniad ar gyfer enwebwyr yn Atodiad C a cheir tabl o'r camau nesaf yn y broses enwebu yn Nhabl 2.

1.13 Wrth enwebu safle, rhaid i enwebwyr ddangos ei bod yn rhesymol casglu bod digon o dir o fewn y terfyn a enwebwyd ganddynt i weithredu o leiaf un orsaf bŵer niwclear newydd a darparu ar gyfer storio'r holl weddillion tanwydd a'r gwastraff lefel ganolradd a gynhyrchir yn ystod gweithredu a datgomisiynu ar safle'r orsaf, yn ddiogel a chadarn, hyd nes y gellir ei anfon i'w waredu mewn cyfleuster gwaredu daearegol. Dylai enwebwyr roi cyfrif am hyn wrth bennu'r ardal a enwebir a bydd y Llywodraeth yn ystyried hyn wrth gynnal ei hasesiad yn erbyn y meini prawf SSA.

1.14 Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y gall lefel diffinio'r prosiect fod yn gyfyngedig ar y cam hwn, ac y byddai'n afresymol cymryd na fydd yna angen pellach yn codi am elfen o dir ychwanegol, rhwng enwebu'r tir a chynnig cais ar gyfer caniatâd datblygu. Felly fe fydd yr NPS Niwclear yn amlinellu y gall datblygiadau, mewn rhai amgylchiadau, ddigwydd y tu allan i ffin safle fel y'i nodir ar yr NPS. Ni fydd unrhyw dir ychwanegol a gynigir ar gyfer datblygiad wedi bod yn rhan o asesiad addasrwydd strategol. Bydd angen i dir o'r fath fod yn rhan o'r prif ganiatâd datblygu, a fydd yn cael ei ystyried gan yr IPC.

1.15 Mae'r Llywodraeth yn cadw'r hawl, wrth drafod gydag enwebwyr, i wneud newidiadau i'r ardal a enwebir yn ystod y broses asesu, er enghraifft er mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys yr holl gynlluniau safle gwirioneddol tebygol a'r holl amrywiadau rhesymol i'r cynlluniau hynny. Mae'n bosib hefyd y bydd yn rhaid i'r Llywodraeth addasu terfynau'r ardaloedd a enwebir mewn achosion lle bydd enwebiadau cyfagos, gerllaw neu'n gorgyffwrdd.

Rhychwant daearyddol

1.16 Proses sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr yn unig fydd y broses enwebu safleoedd. Ni fydd yn cynnwys yr Alban na Gogledd Iwerddon gan fod y grym cyfreithiol i gydsynio i adeiladu gorsafoedd pŵer gyda gallu cynhyrchu sy'n fwy na 50 MW wedi cael ei ddatganoli'n weithredol i Weinidogion yr Alban a'i fod yn ddatganoledig hefyd yng Ngogledd Iwerddon. Cyfyngir cylch gorchwyl yr IPC i Gymru a Lloegr, ac eithrio yn achos cyfyngedig pibellau sy'n croesi ffiniau pryd y bydd y cylch gorchwyl yn ymestyn i gynnwys yr Alban hefyd.

1.17 Felly dim ond mewn perthynas â Chymru a Lloegr y bydd yr NPS Niwclear yn effeithiol. Fodd bynnag, bydd y polisi sylfaenol a ddisgrifir yn yr NPS Niwclear yn rhoi sylw i'r Deyrnas Unedig gyfan. Yng ngoleuni hyn, cyfyngedig fydd cymhwysiad yr SSA yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yn arbennig, nid yw'r holl feini prawf lleoli yn cael eu mynegi fel rhai sy'n gymwys i'r Alban a Gogledd Iwerddon, ac ar gyfer Cymru a Lloegr yn unig y bydd yr enwebiadau.

Asesu

1.18 Bwriedir i'r broses SSA fod yn gadarn, yn agored ac yn seiliedig ar roi ystyriaeth briodol i wybodaeth berthnasol. Ni fydd, fodd bynnag, yn cynnwys ystyried data manwl safle-benodol nac yn ceisio achub y blaen ar yr ystyriaethau cynllunio a rheoleiddio a gynhelir adeg y cam caniatâd datblygu.

1.19 Fel y trafodir ym Mhennod 3, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd yn gwneud penderfyniad ynghylch addasrwydd strategol safleoedd gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddarperir gan enwebwyr, sylwadau gan y cyhoedd ynghylch enwebiadau a chyngor arbenigwyr gan gynnwys rheoleiddwyr ac eraill.

1.20 Bydd y Llywodraeth yn sgrinio enwebiadau yn erbyn yr amodau ar gyfer enwebu, a fydd yn cynnwys ystyried y camau a gymerwyd i godi ymwybyddiaeth o'u henwebiadau gyda chymunedau lleol ac ystyried pa mor gredadwy yw lleoli erbyn 2025. O gofio pwysigrwydd lleoli'n gynnar fel yr amlinellir ym Mhennod 2, dylai enwebwyr hefyd esbonio pa ragolygon sydd yna ar gyfer lleoli'n gynnar o fewn amserlen 2025 yn y safle y maent wedi'i enwebu ac mae'n bosib y bydd y Llywodraeth yn rhoi sylw i'r wybodaeth hon wrth wneud yr asesiad (gweler Pennod 2 yn y ddogfen Saesneg am ragor o wybodaeth).

1.21 Bydd yr elfennau canlynol yn cyfrannu gwybodaeth at y broses o lunio penderfyniadau (disgrifir yr elfennau yn fwy manwl isod):

- asesiad y Llywodraeth o'r safleoedd yn erbyn y meini prawf SSA;
- yr Arfarniad Cynaliadwyedd (gan ymgorffori SEA);
- unrhyw Asesiadau Priodol dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd[14];
- safbwyntiau'r cyhoedd; a
- chyngor rheoleiddwyr ac arbenigwyr eraill.

1.22 Bydd y Llywodraeth yn cynnal deialog gydag enwebwyr yn ystod yr asesiad. Fe fydd hyn yn cynnwys trafod unrhyw feysydd sy'n peri pryder yn yr enwebiad a gofyn am ragor o wybodaeth neu eglurhad. Er enghraifft, lle bo enwebiad yn ymwneud ag un neu fwy o feini prawf dewisol, fe all y Llywodraeth ofyn am ragor o fanylion am liniaru. Os bydd y ddeialog hon yn arwain at gais i newid terfyn safle mewn ymateb i bryderon, bydd y Llywodraeth yn ystyried hynny, er na fydd hyn yn gyfle i enwebwyr wneud enwebiad o'r newydd. Fe fydd rhagor o gyfleoedd i roi sylwadau am unrhyw newidiadau o'r fath pan fydd y Llywodraeth yn ymgynghori ynghylch yr NPS Niwclear drafft.

1.23 Os bydd enwebwyr yn anghytuno â chanlyniadau'r SSA, er gwaethaf y broses ddeialog, bydd cyfle pellach iddynt roi eu safbwyntiau yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus ar yr NPS Niwclear. Bydd yr NPS yn destun archwiliad Seneddol hefyd, y disgwylir iddo gael ei gynnal gan Bwyllgor Dethol.

Meini prawf SSA

[14] Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC ar gadwraeth cynefinoedd naturiol a fflora a ffawna gwyllt fel y'i gweithredir gan Reoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol etc.) 1994 (fel y'u newidiwyd). Enw arall ar y rheoliadau hyn yw'r Rheoliadau Cynefinoedd.

1.24 Mae'r meini prawf terfynol i'w gweld yn Nhabl 1. O ganlyniad i'r ymgynghoriad a chyngor technegol pellach, gwnaed newidiadau i'r meini prawf o ran risg seismig, gallu ffawtio, llifogydd, ymchwydd storm, tswnami a phrosesau arfordirol, a maint y safle. Rhoddir rhagor o esboniad ar y newidiadau hyn ym Mhennod 4 yn y fersiwn Saesneg.

1.25 Mae'r meini prawf terfynol yn cynrychioli materion a bennwyd yn rhai strategol o bwys ac yn rhai y gellir eu hasesu ar lefel genedlaethol. Cawsant eu datblygu gan roi ystyriaeth, ymhlith pethau eraill, i brofiad rhyngwladol, arolwg o gyhoeddiadau perthnasol; barn adrannau'r Llywodraeth gyda chyfrifoldeb am bolisïau sydd wrth wraidd y meini prawf; cyngor y rheoleiddwyr annibynnol (yr Arolygiaeth Safleoedd Niwclear (NII), Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Swyddfa Seciwriti Niwclear Sifil); cyngor technegol proffesiynol; casgliadau'r astudiaeth amgylcheddol a'r adroddiad diweddaru; sylwadau a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad (Mai 2007) ar y broses arfaethedig ar gyfer yr SSA fel y nodwyd yn Atodiad B y Papur Gwyn ar Bŵer Niwclear; ac ymatebion i'r ymgynghoriad SSA fel y disgrifir yn fwy manwl ym Mhennod 4.

1.26 Bydd y Llywodraeth yn cynnal ei hasesiad yn erbyn meini prawf gwaharddol a dewisol. Meini prawf gwaharddol yw'r rhai a fyddant, os cânt eu torri, yn bendant yn eithrio safle rhag cael ei ystyried ymhellach.

1.27 Meini prawf dewisol yw'r meini prawf a allai, ym marn y Llywodraeth, am amryfal resymau, naill ai'n unigol neu ar y cyd, wneud rhan o safle neu'r safle cyfan yn anaddas ar gyfer gorsaf bŵer niwclear newydd ond sy'n gofyn am ystyriaeth ofalus er mwyn llunio casgliad ynghylch pa mor strategol addas yw'r safle. Wrth lunio penderfyniad ynghylch a ddylid cynnwys safle sy'n ymwneud ag un neu fwy o feini prawf dewisol ar y rhestr yn yr NPS Niwclear, fe fydd y DECC yn ystyried, *inter alia* :

- a yw'r enwebydd wedi dangos bod yna ragolwg rhesymol o allu lliniaru'n briodol (yn llwyr neu'n rhannol) unrhyw effeithiau andwyol posib mewn perthynas â'r maen prawf neu'r meini prawf dewisol perthnasol;

- ble na ellir lliniaru'n briodol ar gyfer unrhyw effaith (effeithiau) andwyol posib, a ddylai'r effaith andwyol bosib rwystro'r safle rhag cael ei ystyried ar lefel strategol gan roi ystyriaeth i'r Papur Gwyn ar Bŵer Niwclear.

1.28 Nid yw'r Llywodraeth yn disgwyl llunio barn derfynol ynghylch pa mor ddichonadwy yw cynigion manwl ar gyfer lliniaru neu union raddau unrhyw effeithiau andwyol posib. Yn hytrach, mater i'r IPC ei ystyried fydd hyn pan fydd yn derbyn cais penodol ar gyfer caniatâd datblygu i adeiladu ar un o'r safleoedd a restrir yn yr NPS Niwclear.

1.29 Fe fydd y Llywodraeth hefyd yn ystyried effaith gronnus y meini prawf dewisol mewn perthynas â safle a enwebir. Lle bo safle yn torri nifer fawr o feini prawf dewisol a hynny'n sylweddol, gall fod yn briodol ei eithrio rhag ei gynnwys yn yr NPS Niwclear.

1.30 Y mae'r SSA hefyd yn cynnwys nifer o feini prawf y mae'n fwy priodol eu hystyried ar y lefel leol, fel arfer oherwydd yr angen am ymchwiliadau a data safle-benodol manwl. Fel y cyfryw, bydd y meini prawf hyn a "glustnodir i'w hystyried yn lleol" yn ystyriaeth bwysig ar y cam caniatâd datblygu. Nid ydynt yn cynrychioli prawf llai beichus i'r enwebydd ei fodloni ac nid yw baner ystyriaeth leol yn newid eu hanfod gritigol mewn unrhyw ffordd, yn hytrach mae'n cydnabod na all asesiad ar lefel strategol fynd i'r afael â'r materion hyn yn briodol. Bydd yr NPS Niwclear yn adlewyrchu pwysigrwydd y meini prawf hyn.

Tabl 1:Y meini prawf SSA terfynol

Meini prawf yn ymwneud â diogelwch niwclear				
Meini prawf	**Statws**	**Rhychwant daearyddol[15]**	**Unrhyw newid?**	**Cyfeiriad yn y ffurflen a'r Canllawiau[16]**
Llifogydd, tswnami ac ymchwydd storm	Dewisol	DU	Yn flaenorol, roedd llifogydd yn faen prawf ar ei ben ei hun. Gweler Pennod 4 am ragor o wybodaeth.	**D1**
Prosesau arfordirol	Dewisol	DU	Yn flaenorol, roedd prosesau arfordirol wedi'i gyfuno gyda tswnami ac ymchwydd storm. Gweler Pennod 4 am ragor o wybodaeth.	**D2**
Agosrwydd at gyfleusterau a gweithrediadau diwydiannol peryglus	Dewisol	DU	Na	**D3**
Agosrwydd at symudiadau awyrennau sifil	Dewisol	DU	Na	**D4**
Demograffeg	Gwaharddol	DU	Na	**C1**
Agosrwydd at weithgareddau milwrol	Gwaharddol a Dewisol	DU	Na	**C2 a D5**

[15] Gweler Pennod 3 am ragor o fanylion ar rychwant daearyddol yr SSA a'r NPS
[16] Gweler Atodiadau C a D ar gyfer y Canllawiau Enwebu a'r Ffurflen Enwebu

Meini prawf yn ymwneud â diogelu'r amgylchedd				
Safleoedd o bwys ecolegol: dynodiad rhyngwladol	Dewisol	Cymru a Lloegr yn unig	Na	D6
Safleoedd o bwys ecolegol: dynodiad cenedlaethol	Dewisol	Cymru a Lloegr yn unig	Na	D7
Meini prawf yn ymwneud â materion cymdeithasol				
Ardaloedd o werth o ran amwynder, treftadaeth ddiwylliannol a thirwedd	Dewisol	Cymru a Lloegr yn unig	Na	D8
Meini prawf yn ymwneud â gofynion gweithredol				
Maint y safle er mwyn cynnwys y gweithredu	Dewisol	DU	Yn flaenorol roedd yn cynnwys maint y safle er mwyn cynnwys adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, sydd bellach wedi'i glustnodi i'w ystyried yn lleol. Gweler Pennod 4 am ragor o wybodaeth.	D9
Mynediad at ffynonellau oeri addas	Dewisol	DU	Na	D10
Meini prawf lleol				
Meini prawf yn ymwneud â diogelwch niwclear				
Risg seismig (symudiad tir dirgrynol)	Clustnodi i'w ystyried yn lleol	DU	Yn flaenorol roedd yn faen prawf gwaharddol. Gweler Pennod 5 am ragor o wybodaeth	
Galluog i ffawtio	Clustnodi i'w ystyried yn lleol	DU	Yn flaenorol roedd yn faen prawf gwaharddol. Gweler Pennod 4 am ragor o wybodaeth	
Amodau tir anseismig	Clustnodi i'w ystyried yn lleol	DU	Na	

Meini prawf yn ymwneud â diogelwch niwclear			
Amodau meteorolegol	Clustnodi i'w ystyried yn lleol	DU	Na
Agosrwydd at symudiadau awyrennau sifil	Clustnodi i'w ystyried yn lleol	DU	Na
Meini prawf yn ymwneud â materion cymdeithasol			
Seilwaith/ adnoddau arwyddocaol	Clustnodi i'w ystyried yn lleol	Cymru a Lloegr yn unig	Na
Meini prawf yn ymwneud â gofynion gweithredu			
Mynediad at seilwaith trawsyrru	Clustnodi i'w ystyried yn lleol	DU	Na
Maint y safle er mwyn cynnwys adeiladu a datgomisiynu	Clustnodi i'w ystyried yn lleol	DU	Yn flaenorol roedd yn rhan o "maint y safle er mwyn cynnwys y gweithredu". Gweler Pennod 4 am ragor o wybodaeth.

	Agosrwydd at fwyngloddio, drilio a gweithrediadau tanddaear eraill.	Clustnodi i'w ystyried yn lleol	DU	Na

Arfarniad Cynaliadwyedd sy'n ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA)

1.31 Mae Deddf Cynllunio 2008 yn mynnu y dylid cynnal Arfarniad Cynaliadwyedd ar gyfer pob NPS. Pwrpas cwblhau Arfarniad Cynaliadwyedd yw darparu gwybodaeth i rai sy'n llunio penderfyniadau, ymgyngoreion statudol ac eraill â diddordeb, ynghylch effeithiau ehangach datblygiadau yn y dyfodol.

1.32 Dechreuodd y Llywodraeth ar y broses sy'n arwain at NPS Niwclear cyn pasio Deddf Cynllunio 2008, ac ystyriai y byddai'n briodol cynnal SEA o'r NPS Niwclear yn unol â'r Gyfarwyddeb SEA. O'r dechrau cyntaf, cafodd yr asesiad hwn ei ymestyn i gynnwys testunau ychwanegol i'r rhai a nodir yng Nghyfarwyddeb yr SEA. Ymhlith y pynciau ychwanegol y mae ffactorau economaidd-gymdeithasol megis cyflogaeth, demograffeg, hyd oes disgwyliedig, bod yn agored i afiechydon, lleoliadau aneddiadau a seilwaith, gwerth eiddo a mynediad at wasanaethau. Diben ehangu'r pynciau oedd bodloni gofynion Arfarniad Cynaliadwyedd dan Ddeddf Cynllunio 2008. Yn unol â pholisi'r Llywodraeth mewn perthynas â datganiadau NPS, rydym bellach yn cyfeirio at y broses hon fel Arfarniad Cynaliadwyedd yn hytrach nag SEA. Nid yw'r newid terminoleg yn golygu unrhyw newid yn rhychwant yr asesiadau amgylcheddol ac o ran cynaliadwyedd, gan y bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd ar gyfer yr NPS Niwclear yn parhau i gynnwys gofynion y Gyfarwyddeb SEA.

1.33 Bydd yr astudiaeth amgylcheddol ac asesiadau amgylcheddol a chynaliadwyedd eraill a gynhaliwyd eisoes yn cael eu hystyried fel rhan o broses gyfredol Arfarniad Cynaliadwyedd yr NPS Niwclear yn unol ag adran 12(4) Deddf Cynllunio 2008. Hyd yma, mae'r broses Arfarniad Cynaliadwyedd (gan ymgorffori SEA) wedi cynnwys y camau canlynol:

Cam yn y broses Arfarniad Cynaliadwyedd	**Pwrpas**
Ymgynghori ynghylch yr Adroddiad Rhychwantu SEA.	Adroddiad yn cynnwys ymgynghori cynnar â'r cyrff statudol ac eraill â diddordeb ynghylch rhychwant a lefel manylder arfaethedig yr SEA (Arfarniad Cynaliadwyedd bellach) yn unol â'r Gyfarwyddeb SEA. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth llinell sylfaen a gâi ei defnyddio ar gyfer asesu effeithiau arwyddocaol tebygol, amcanion cynlluniau allweddol eraill, elfennau'r NPS Niwclear arfaethedig fyddai'n cael eu hasesu, a'r fframwaith o amcanion ar gyfer cynnal yr asesiad.

Cam yn y broses Arfarniad Cynaliadwyedd	Pwrpas
Cymhwyso'r Meini Prawf Lleoli Strategol arfaethedig: astudiaeth o'r effeithiau posib yn amgylcheddol ac o ran cynaliadwyedd. BERR Gorffennaf 2008 (yr astudiaeth amgylcheddol).	Fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Meini Prawf Lleoli Strategol arfaethedig, mae hwn yn cynnwys astudiaeth o effeithiau posib cymhwyso'r Meini Prawf SSA, yn amgylcheddol ac o ran cynaliadwyedd.
Diweddariad i'r ddogfen: Cymhwyso'r Meini Prawf Lleoli Strategol Arfaethedig: astudiaeth o'r effeithiau posib yn amgylcheddol ac o ran cynaliadwyedd (yr adroddiad diweddaru, Ionawr 2009).	Adroddiad i ddiweddaru'r astudiaeth amgylcheddol gyda newidiadau a wnaed i'r Meini Prawf SSA o ganlyniad i'r ymgynghoriad. Y mae hefyd yn esbonio'r newid o SEA i Arfarniad Cynaliadwyedd (sy'n ymgorffori SEA) yn unol â gofynion newydd a amlinellir yn Neddf Cynllunio 2008.

Mae'r Llywodraeth yn disgwyl y bydd rhagor o waith ar y broses Arfarniad Cynaliadwyedd yn cynnwys y camau allweddol canlynol:

Cam yn y broses Arfarniad Cynaliadwyedd	Pwrpas
Gwaith asesu parhaus i lywio paratoi'r NPS Niwclear.	Bydd gwaith asesu manwl yn adeiladu ar y gwaith yr adroddwyd arno eisoes yn yr astudiaeth amgylcheddol a'r adroddiad diweddaru. Bydd hyn yn cynnwys asesu'r dewisiadau NPS amgen a'r safleoedd a enwebir.
Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd (i gyd-fynd â'r NPS Niwclear Drafft).	Bydd yr adroddiad hwn yn ymgorffori gofynion y Gyfarwyddeb SEA i gynhyrchu 'Adroddiad Amgylcheddol'. Bydd yn adrodd ar effeithiau cynaliadwyedd yr NPS Niwclear yn ei gyfanrwydd ac yn dogfennu sut y cyfrannodd y broses Arfarniad Cynaliadwyedd gyfredol at gynaliadwyedd yr NPS.

Asesu dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd

1.34 Y mae'r Llywodraeth hefyd wedi ymgymryd ag Adroddiad Sgrinio ar yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd er mwyn ystyried a allai'r NPS Niwclear gael effeithiau arwyddocaol ar yr ardaloedd cadwraeth natur hynny a ddiogelir dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Cafodd yr Adroddiad hwnnw ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r ymgynghoriad ar yr SSA. Bydd y Llywodraeth yn cynhyrchu Adroddiad Sgrinio pellach ar yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd unwaith yr enwebir safleoedd ac, os bydd yr adroddiad hwnnw yn dod i'r casgliad y byddai cynnwys y safleoedd hynny yn yr NPS Niwclear yn gallu arwain at effeithiau arwyddocaol ar ardaloedd cadwraeth natur a ddiogelir dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, bydd y Llywodraeth yn cynnal Asesiadau Priodol[17] mewn perthynas â'r safleoedd perthnasol.

1.35 Bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd ac unrhyw Asesiadau Priodol dan y Gyfarwyddeb yn cyfrannu gwybodaeth at asesiad y safleoedd dan yr SSA.

Barn y cyhoedd

1.36 Cafodd y broses SSA ei chynllunio i fod yn gadarn ac agored. Yn ystod yr SSA, byddwn yn gwneud yr holl wybodaeth a ddarperir gan enwebwyr yn agored i'r cyhoedd fel rhan o'r broses enwebu ac eithrio ble bydd angen neilltuol i gadw cyfrinachedd. Cyhoeddir enwebiadau. Mewn ymateb i bwyntiau a godwyd yn yr ymgynghoriad, bydd gan gymunedau lleol un mis i roi eu sylwadau cychwynnol i'r Llywodraeth ynghylch enwebiadau, cyn ac yn ychwanegol at ymgynghoriad cyhoeddus a gynhelir yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Bydd yr ymgynghoriad hwn ar ganlyniadau'r SSA a'r NPS Niwclear, a fydd yn cynnwys ymgynghori â chymunedau lleol.

1.37 Bydd y rhestr o safleoedd a gynhwysir gan y Llywodraeth yn yr NPS Niwclear fel rhai sy'n addas ar gyfer lleoli gorsafoedd pŵer niwclear newydd yn destun archwilio cyhoeddus (gan gynnwys gyda'r rhai sydd yng nghyffiniau'r safleoedd) ac archwilio Seneddol. Mae'r Llywodraeth yn disgwyl disgrifio pam y gwnaeth y penderfyniadau hyn, gan gynnwys pam yr oedd unrhyw safleoedd neilltuol yn rhai anaddas. Yn y modd hwn, bydd y penderfyniad pwysig ynghylch pa safleoedd sy'n addas yn strategol yn cael ei wneud gyda chyfraniad cyngor arbenigol yn ogystal â gyda'r cyfle i'r cyhoedd (gan gynnwys cymunedau lleol) a'r Senedd fynegi eu barn.

Cyngor y rheoleiddwyr ac arbenigwyr eraill

1.38 Mae gan y DU gyfundrefnau annibynnol llym yn ymdrin â diogelwch, gwarchod yr amgylchedd a seciwriti ar gyfer pŵer niwclear, a orfodir gan reoleiddwyr annibynnol: yr Arolygiaeth Safleoedd Niwclear (NII), Asiantaeth yr Amgylchedd (EA) a'r Swyddfa Seciwriti Niwclear Sifil (OCNS). O bryd i'w gilydd, yn y ddogfen hon cyfeirir at y cyrff hyn fel "y rheoleiddwyr".

[17] Fel y nodir yn y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

1.39 Fel y sonnir uchod, cafwyd cyngor gan y rheoleiddwyr wrth ddatblygu'r meini prawf SSA. Pan fydd y Llywodraeth yn mynd ati i asesu enwebiadau, fe fydd yn gofyn am gyngor arbenigwyr gan gynnwys y rheoleiddwyr perthnasol, a chyrff eraill, am y wybodaeth a roddwyd yn erbyn meini prawf penodol.

1.40 Nid yw hyn yn disodli'r swyddogaeth a fydd gan y rheoleiddwyr ar gam diweddarach. Bydd yr NPS Niwclear yn gosod canllawiau ar y modd y dylai'r IPC edrych ar y meini prawf hynny a glustnodir yn rhai i'w hystyried yn lleol wrth iddynt ystyried ceisiadau penodol am ganiatâd datblygu ar gyfer gorsafoedd pŵer niwclear ar safleoedd a restrir yn yr NPS Niwclear, a bydd cyngor y rheoleiddwyr priodol yn rhan annatod o'r gwaith o ystyried y rhain. Dylid nodi na fwriedir i'r meini prawf lleol fod yn rhestr gynhwysfawr o faterion y bydd yr IPC neu'r rheoleiddwyr diogelwch, seciwriti neu amgylcheddol yn eu hystyried ar y cam hwn. Bydd unrhyw orsaf bŵer niwclear newydd yn destun amodau trwyddedu diogelwch a bydd yn rhaid i'r gweithredwr gydymffurfio â'r amodau diogelwch a'r amodau amgylcheddol a osodir gan y rheoleiddwyr.[18]

Yr NPS Niwclear a'r IPC

1.41 Mae'r Llywodraeth yn disgwyl y bydd yr NPS Niwclear yn cynnwys, ymysg pethau eraill:

- Cefndir yr NPS Niwclear o ran polisi, gan adeiladu ar y Papur Gwyn ar Bŵer Niwclear i ailadrodd polisi'r Llywodraeth ar bŵer niwclear a swyddogaeth niwclear yn y cymysgedd ynni, a all ymgorffori safbwyntiau'r Llywodraeth ac arwyddocâd posib mynd ati i leoli gorsafoedd pŵer niwclear newydd yn gynnar, o ran cyflawni ein hamcanion ym maes newid hinsawdd.

- Y farn a luniodd y Llywodraeth ar lefel strategol ynghylch addasrwydd safleoedd. Byddai hyn yn cynnwys penderfyniadau am safleoedd nad ydynt yn rhai addas, ac unrhyw achosion pan fo'r Llywodraeth o'r farn y dylai'r IPC roi ystyriaeth neilltuol i faterion sy'n codi o'i asesiad o safle yn erbyn y meini prawf dewisol, megis yr angen am fesurau lliniaru posib.

- Canllawiau ar sut y dylai'r meini prawf a glustnodir yn rhai i'w hystyried yn lleol gael eu gweld gan yr IPC pan fyddant yn ystyried ceisiadau am ganiatâd datblygu.

- Yr Arfarniad Cynaliadwyedd, a fydd yn ymgorffori'r SEA a hysbysu'r SSA a'r NPS Niwclear.

1.42 Yn ychwanegol, roedd y Papur Gwyn ar Bŵer Niwclear yn ei gwneud yn glir mai polisi'r Llywodraeth yw hyn: cyn y rhoddir caniatâd datblygu ar gyfer gorsafoedd pŵer niwclear newydd, bydd angen i'r Llywodraeth gael ei bodloni

[18] Am ragor o wybodaeth am rôl yr NII wrth drwyddedu gorsaf bŵer niwclear newydd, ewch i www.hse.gov.uk/nuclear/notesforapplicants.pdf, hefyd www.hse.gov.uk/newreactors/ngn02.pdf

bod yna drefniadau effeithlon yn bodoli, neu y byddant yn bodoli, ar gyfer rheoli a gwaredu'r gwastraff y bydd y gorsafoedd yn ei gynhyrchu. Bydd yr NPS Niwclear a'r Arfarniad Cynaliadwyedd perthynol yn rhoi cyfrif am hyn.

1.43 Gan y bydd yr SSA wedi asesu addasrwydd strategol y safleoedd, nid yw'r Llywodraeth yn disgwyl y bydd angen i'r IPC ailystyried yr agwedd hon ar y safleoedd. Yn hytrach, bydd yr IPC yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â chynigion penodol i adeiladu ar safle a restrir yn yr NPS Niwclear. Fodd bynnag, nid yw asesiad fod safle yn un strategol addas yn gwarantu y caniateir ceisiadau am ganiatâd datblygu yn y safle hwnnw. Mae Deddf Cynllunio 2008 yn nodi'r amryfal ffactorau y bydd yn rhaid i'r IPC eu hystyried wrth lunio ei benderfyniad. Mae hyn yn cynnwys yr NPS Niwclear perthnasol. Mae'n bosib hefyd y bydd yna achlysuron pan fydd y Llywodraeth, o ganlyniad i'w hasesiad, yn credu y dylid rhoi rhagor o ystyriaeth i fater arbennig (megis y mesurau i liniaru yn erbyn maen prawf dewisol) ar y cam IPC, a bydd yr NPS Niwclear yn adlewyrchu hyn.

Y camau nesaf

1.44 Mae'r ddogfen hon yn cynnwys manylion ynghylch sut rydym wedi penderfynu ar y camau nesaf ar gyfer yr SSA. Mae'r camau hyn yn cael eu crynhoi yn Nhabl 2 er hwylustod cyfeirio. Mae'r tabl hefyd yn cynnwys cyfleoedd i gymunedau gyfrannu eu safbwyntiau, a manylion am ddatblygu'r Arfarniad Cynaliadwyedd, sef rhan anhepgor o raglen waith yr SSA a'r NPS Niwclear.

Tabl 2:Y camau nesaf i'r SSA a'r NPS Niwclear

Dyddiad dangosol	**Cam**	**Datblygu'r Arfarniad Cynaliadwyedd**
Gorffennaf – Tachwedd 2008	Roedd yr Ymgynghoriad ar y Broses Asesiad Lleoli Strategol a Meini Prawf Lleoli ar gyfer Gorsafoedd Pŵer Niwclear Newydd yn y DU yn gwahodd safbwyntiau gan y cyhoedd ynghylch y meini prawf drafft a'r broses ar gyfer yr Asesiad Lleoli Strategol a	Ymgynghori ar yr astudiaeth amgylcheddol.
Tan ddiwedd Ionawr 2009	Yn dilyn ymgynghori, cyhoeddir meini prawf SSA terfynol, canllawiau a ffurflen enwebu. Rhaid cyflwyno enwebiadau erbyn 31 Mawrth 2009.	Ystyried yr effeithiau posib, yn amgylcheddol ac o ran cynaliadwyedd, pe lleolir yn unol â'r meini prawf SSA terfynol a chynhyrchu adroddiad diweddaru[19].

[19] Cyhoeddir ochr yn ochr â'r ddogfen hon, gweler

http://www.berr.gov.uk/whatwedo/energy/sources/nuclear/consultations/closed-response/page47749.html

Dyddiad dangosol	**Cam**	**Datblygu'r Arfarniad Cynaliadwyedd**
Cyn 31 Mawrth 2009	Mae'r SSA yn ei gwneud yn rheidrwydd ar i unrhyw un sy'n enwebu safle i gymryd camau i godi ymwybyddiaeth gyhoeddus ymysg y gymuned leol fod safle yn cael ei enwebu. Man lleiaf, dylai hyn gynnwys hysbysu'r awdurdod lleol perthnasol, yr Asiantaeth Ddatblygu Ranbarthol (RDA) a pherchnogion tir, a chymryd camau i roi cyhoeddusrwydd i'w henwebiad yn y gymuned ehangach trwy hysbysebu mewn papurau newyddion lleol. Yn achos safleoedd niwclear sydd eisoes yn bodoli, dylai enwebwyr ystyried codi ymwybyddiaeth gyda grŵp rhanddeiliaid presennol y safle. Dylent hefyd ystyried trafod eu cynlluniau i godi ymwybyddiaeth gyda'r awdurdodau lleol perthnasol.	
Ar ôl 31 Mawrth 2009	Cyhoeddir enwebiadau. Rhoddir mis i'r cyhoedd roi eu sylwadau cychwynnol i'r Llywodraeth, cyn ac yn ychwanegol at ymgynghoriad cyhoeddus yn ddiweddarach yn y flwyddyn.	Cynnal Arfarniad Cynaliadwyedd (gan gynnwys SEA) ar safleoedd gan ganiatáu ar gyfer rhagor o wybodaeth a ddarperir gan enwebwyr. Defnyddir yr Arfarniad Cynaliadwyedd i hysbysu'r asesiad a drafft yr NPS Niwclear. Cyhoeddir yr Arfarniad Cynaliadwyedd i gyd-fynd â'r NPS Niwclear drafft ar gyfer ymgynghori cyhoeddus ac archwiliad Seneddol.
Haf – Hydref 2009	Bydd y Llywodraeth, gyda chyngor arbenigwyr gan gynnwys rheoleiddwyr ac eraill, yn cynnal ei hasesiad yn erbyn yr amodau ar gyfer enwebu a'r meini prawf gwaharddol a dewisol. DECC yn mynd at yr enwebydd i gael unrhyw eglurhad neu ragor o wybodaeth sydd ei hangen. Lle bo'r asesiad yn dangos bod safle a enwebir yn torri maen prawf neu'n peri pryder yn hynny o beth, bydd DECC yn hysbysu'r enwebydd a rhoi cyfle iddynt ddarparu unrhyw wybodaeth bellach neu newid enwebiad o fewn rheswm. DECC yn ymgynghori ynghylch allbwn yr SSA (gan gynnwys y rhestr ddrafft o safleoedd) fel rhan o'r ymgynghoriad ar yr NPS Niwclear drafft, gyda'r Arfarniad Cynaliadwyedd cyfatebol. Bydd hyn yn cynnwys ymgynghori â chymunedau lleol y gallai'r cynigion o bosib effeithio arnynt. Fel y nodir yn Neddf Cynllunio 2008, bydd y Llywodraeth yn ymgysylltu â'r awdurdodau lleol perthnasol wrth benderfynu pa gamau sy'n briodol wrth roi cyhoeddusrwydd i'w chynigion. Os bydd enwebwyr yn anghytuno â chanlyniadau'r SSA, er gwaethaf y broses ddeialog hon, bydd cyfle iddynt roi eu safbwyntiau yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus ar yr NPS Niwclear drafft.	

Dyddiad dangosol	**Cam**	**Datblygu'r Arfarniad Cynaliadwyedd**
Gaeaf 2009 – Gwanwyn 2010	Ymgynghoriad yn cau. Archwiliad Seneddol yn parhau. DECC yn ystyried unrhyw adroddiad neu gynnig Seneddol, ac adolygu'r NPS Niwclear drafft fel sy'n briodol. Bydd Ysgrifennydd Gwladol DECC yn rhoi datganiad gerbron y Senedd yn nodi ei ymateb i unrhyw gynnig neu argymhelliad Seneddol. Ysgrifennydd Gwladol DECC yn dynodi'r NPS Niwclear.	Bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn cael ei ddiweddaru a'i gyhoeddi i gyd-fynd â'r NPS Niwclear.
O'r flwyddyn 2010	Petai datblygwyr yn gwneud cais am ganiatâd datblygu ar gyfer gorsafoedd pŵer niwclear newydd ar safleoedd a restrir o fewn yr NPS Niwclear, bydd y ceisiadau hyn yn destun y gofynion ymgynghori a bennir gan Ddeddf Cynllunio 2008, ac unrhyw ddeddfwriaeth eilaidd neu ganllawiau pellach gan yr IPC. Bydd hyn yn cynnwys rheidrwydd cyffredinol ar i'r hyrwyddwyr (datblygwyr) gysylltu â phartïon y bydd hyn yn effeithio arnynt a rhai â diddordeb, gofyniad eu bod yn paratoi datganiad o ymgysylltu â'r gymuned a rheidrwydd eu bod yn rhoi cyhoeddusrwydd digonol i'w cynllun er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Cynllunio 2008. Yn ychwanegol at hyn, bydd hawl gan bobl a gofrestrodd gyda'r IPC fel rhai sydd â diddordeb, i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'r IPC ynghylch y cais am ganiatâd datblygu a gyflwynir gan ddatblygwr. Hefyd, byddant yn gallu rhoi tystiolaeth lafar ar unrhyw fater a ystyrir mewn gwrandawiad mater penodol a elwir gan yr IPC, a mynegi eu barn mewn gwrandawiad llawr agored ynghylch cynnig.	